Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol





# Cylchlythyr Tiwtoriaid

Hydref 2018

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn

# Croeso

**Ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd ry'n ni'n edrych ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall**.

Wrth edrych yn ôl ar yr haf, ry'n ni'n ymfalchïo, ac yn diolch i chi fel tiwtoriaid am eich cefnogaeth wrth sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau ledled Cymru. Ymwelodd nifer fawr o ddysgwyr â stondin Shwmae Caerdydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd, a bu posteri mawr, yr hysbyseb deledu ac ymgyrch ar lein yn gyfryngau i rannu bwrlwm y sector Dysgu Cymraeg yn eang.

Erbyn hyn mae cynllun Siarad wedi ei lansio, a bydd ar gael mewn ardaloedd ar draws Cymru, mae cynlluniau cyffrous i gynnal Gŵyl Ar Lafar, teithiau cerdded i ddysgwyr a llawer mwy yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Mae'n braf medru cymryd y cyfle i ddiolch i chi eto am eich ymroddiad a'ch brwdfrydedd. Cofiwch gysylltu os hoffech chi gyfrannu, roi sylw neu os oes gyda chi gwestiynau.

Diolch yn fawr,

**Hawys Roberts**
Prif Swyddog Cyfathrebu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
hawys.roberts@dysgucymraeg.cymru

Siarad.

**Cynllun Siarad**
Wedi'r lansiad swyddogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd eleni bydd cynllun Siarad yn cael ei gyflwyno ar draws Cymru gyfan o fis Tachwedd ymlaen.

Bydd cyfle i ddysgwyr ar lefel Canolradd ac Uwch gofrestru diddordeb drwy eu proffil ar y wefan. Mae modd i siaradwyr Cymraeg gofrestru i fod yn rhan o'r cynllun hefyd drwy fynd i https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad/

Bydd gan bob ardal darged i'w gyrraedd, a dyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at weld nifer o ddysgwyr a Chymry Cymraeg yn elwa o'r cynllun. Croeso i chi gysylltu â swyddfa@dysgucymraeg.cymru am fwy o wybodaeth.

# Dyddiadau i'w cofio

Ar Lafar
Gŵyl Gymraeg i Ddysgwyr
Welsh Learners' Festival

6 Ebrill Gŵyl Ar Lafar

11 Mai Y Gynhadledd Genedlaethol, Canolfan yr Urdd, Bae Caerdydd

**Teithiau Cerdded**
Mewn cydweithrediad â'r Urdd, byddwn ni'n trefnu cyfres o deithiau cerdded. Rhowch y dyddiadau canlynol yn eich dyddiadur!

| | |
|---|---|
| 9 Mawrth | Canolbarth |
| 13 Ebrill | De Orllewin |
| 11 Mai | Gogledd Orllewin |
| 15 Mehefin | De Ddwyrain<br>Ynys y Barri a cherdded i Ŵyl Fach y Fro |

Bydd pob taith tua 4 milltir. Mwy o fanylion i ddilyn, gan gynnwys taith yn y Gogledd Ddwyrain.

# Adnoddau newydd




Yn dilyn blwyddyn o beilota mae’r Cyrsiau Mynediad 1 ac Uwch 1 cenedlaethol yn cael eu dysgu ledled Cymru a dyn ni’n hynod o ddiolchgar i chi fel tiwtoriaid am eich ymrwymiad i’r project. Mae gwerslyfrau, adnoddau a chanllawiau i diwtoriaid, llawer o ddeunyddiau sain a fideo ac ymarferion digidol ar-lein yn rhan o’r project. Mae’r gweithio strategol canolog yma eisoes wedi dwyn ffrwyth wrth i Gyngor Llyfrau Cymru gydweithio a buddsoddi mewn ugain o lyfrau newydd i ddysgwyr yn y gyfres Amdani. Y cam cyffrous nesaf i ni fydd cyhoeddi Uwch 1 yn llawn fel cyfrol i’w gwerthu. Bydd hi ar gael yn gynnar yn 2019.

Diolch i’r tiwtoriaid hynny sydd wrthi’n peilota unwaith eto eleni – Mynediad 2 yn y gogledd, Sylfaen yn y de ac Uwch 2 ar draws Cymru gyfan.

## Cymraeg Gwaith
## Work Welsh

Bydd sesiynau hyfforddi yn cael eu cynnal rhwng 10am-2pm yn y lleoliadau canlynol:


| | |
|---|---|
| 23 Tachwedd | Canolfan Fusnes Conwy |
| 30 Tachwedd | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Campws Caerfyrddin |
| 18 Rhagfyr | Coleg Gwent, Campws Casnewydd |

Y dyddiad cau ar gyfer ymrestru fydd 1 Tachwedd. Gallwch archebu drwy eich darparwyr yn lleol.

**System gofrestru i diwtoriaid**

Yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19 bydd pob tiwtor yn cofnodi presenoldeb/absenoldeb dysgwyr drwy ddefnyddio'r gofrestr ar-lein ar Safle'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Yn ddiweddar mae Marc Morris, ein Prif Swyddog Systemau Gwybodaeth, wedi bod yn trafod y gofrestr ar-lein gyda darparwyr pob ardal. Os na dach chi wedi cael mynediad i'r gofrestr ar-lein eto, mae croeso i chi gysylltu â'ch darparwr i ofyn am gymorth neu cysylltwch â marc.morris@dysgucymraeg.cymru




**Llyfryn Defnyddio fy Nghymraeg**

Mae'r llyfryn hwn wedi ei greu i'r dysgwyr i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Croeso i chi ei ddefnyddio a'i rannu. https://dysgucymraeg.cymru/media/3766/her-yr-haf_a5_web.pdf

**Llyfrau Amdani**

Gobeithio bod y dysgwyr yn mwynhau'r llyfrau yng nghyfres Amdani.  Y cam nesaf yw addasu llyfrau i ddysgwyr sydd wedi mynd allan o brint a'u hailargraffu yn unol â'r lefelau yn ein cwricwlwm newydd ni.  Oes unrhyw lyfrau hoffech chi weld yn ôl ar silffoedd ein siopau llyfrau?  Peidiwch â phoeni – mae llyfrau Blodwen Jones ar y rhestr yn barod!  Anfonwch eich syniadau at rhiannon.thomas@llyfrau.cymru .

Parallel.cymru

Cylchgrawn dwyieithog arlein
Bilingual online magazine

Mae gan parallel.cymru amrywiaeth o ddeunydd i'w rannu â dysgwyr ar lefelau gwahanol.

Trwy gyflwyno deunydd ar y lefelau yma, gall siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o bob gallu fwynhau darllen, ehangu geirfa a thyfu'n fwy hyderus wrth siarad Cymraeg.

Fel deunydd dysgu anffurfiol, mae llawer o fanteision:

- Mae pob erthygl ar gael yn rhad ac am ddim.
- Mae'r wefan yn gweithio'n dda ar dabledi a ffonau clyfar.
- Nid oes angen cofrestru na mewngofnodi.
- Gallwch ddefnyddio'r erthyglau fel ffordd o ennyn sgwrs yn y dosbarth.
- Gallwch lawrlwytho unrhyw erthygl fel PDF i'w defnyddio.
- Mae sain i fynd gyda sawl erthygl, felly mae pobl yn gallu gwrando a darllen ar yr un pryd.

Yn ychwanegol at erthyglau, mae rhai adnoddau sy'n addas iawn i ddysgwyr:

- Canllaw gramadeg dwyieithog.
- Geiriadur i ddysgwyr.
- Geirfa thematig.
- Tudalen yn sôn am gyfres llyfrau newydd i ddysgwyr, Amdani.
- Newyddion yn addas ar gyfer dysgwyr lefel Canolradd ac Uwch.
- Os oes syniadau gyda chi gallwch drafod gyda'ch Swyddog Dysgu Anffurfiol, neu i rannu cyfraniadau, cysylltwch â Neil Rowlands parallel.cymru@gmail.com.

# Seremoni yn yr Eisteddfod



*Enillydd y wobr Uwch, sef Daniela Schlick o Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin.*
*(Llun: Eisteddfod Genedlaethol Cymru/Aled Llywelyn)*

Cynhaliwyd seremoni yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd i gyflwyno tystysgrifau i'r ymgeiswyr a lwyddodd yn yr arholiadau Canolradd ac Uwch eleni. Bu cyfres yr haf yn llwyddiannus unwaith eto, a gwelwyd cynnydd mawr yn nifer yr ymgeiswyr ar lefelau Mynediad a Sylfaen. Eleni am y tro cyntaf, cyflwynwyd gwobrau coffa Basil Davies i'r ymgeiswyr a oedd wedi derbyn y marciau uchaf yn yr arholiadau Cymraeg i Oedolion. Dyma'r enillwyr:

Mynediad: Samantha Jones (Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain) a Karin Koehler (Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin)
Sylfaen: Barry William Lord (Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr)
Canolradd: Rebecca Bateson (Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin)
Uwch: Daniela Schlick (Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin)

Roedd y pump wedi teithio i'r seremoni, a braf hefyd oedd croesawu rhai o aelodau teulu Basil i'r achlysur. Cyflwynwyd y tystysgrifau a'r gwobrau gan Betsan Moses, Prif Weithredwr yr Eisteddfod.

**Dyddiadau 2019**

Dyma ddyddiadau arholiadau 2019. Cofiwch fod dyddiadau arferol yr arholiad Canolradd a'r arholiad Mynediad Dydd wedi eu cyfnewid. Mae manylion llawn yn y llyfrynnau i ymgeiswyr, ac ar gael ar wefan CBAC.

Mynediad = Dydd Gwener 1 Chwefror 2019
Mynediad Dydd = Dydd Mercher 5 Mehefin 2019
Mynediad Nos = Nos Iau 6 Mehefin 2019
Canolradd = Dydd Gwener 7 Mehefin 2019
Uwch = Dydd Mercher a bore Iau 12/13 Mehefin 2019
Sylfaen = Dydd Gwener 14 Mehefin 2019
Dyddiad cau cofrestru gyda'r ganolfan arholi (Mynediad Ionawr): 7 Rhagfyr 2018
Dyddiad cau cofrestru gyda'r ganolfan arholi (Arholiadau'r Haf):22 Chwefror 2019

# Tlws coffa Elvet a Mair Elvet Thomas



*Helen yn derbyn ei gwobr gan Rhiannon Gregory, noddwr y tlws.*
*(Llun: Eisteddfod Genedlaethol Cymru/Aled Llywelyn).*

Enillydd y tlws coffa (tlws ‘Tiwtor y Flwyddyn’) eleni oedd Helen Williams. Cafodd ei henwebu gan Siân Griffiths.  Bu Helen yn gweithio ym maes Cymraeg i Oedolion ers 1985. Bu’n gweithio fel tiwtor yng Nghaerdydd, Abertawe, Ceredigion a Sir Benfro.Mae hi wedi cyfrannu at waith arholi, datblygu cwricwlwm ac adnoddau, ond dysgu yw ei phrif ddiddordeb.

Fel y dywedodd Siân amdani:

*“Mae hi’n berson hoffus a chyfeillgar sydd yn golygu bod tiwtoriaid a staff yn hapus i siarad â hi am unrhyw broblemau sy’n codi yn y dosbarth neu wrth ddysgu. Mae hi hefyd yn ysbrydoli ei dysgwyr i barhau i ddysgu o flwyddyn i flwyddyn. Mae hi’n arwain ei dysgwyr tu allan i’r dosbarthiadau hefyd, trwy gefnogi pobl mewn nosweithiau llawen, cwisiau, neu sesiynau Ffrindiaith.  Mae hyn yn esiampl wych i diwtoriaid a darpar diwtoriaid.  Y tri gair baswn i’n eu defnyddio i’w disgrifio yw: proffesiynol, cydwybodol a chyfeillgar.”*

Llongyfarchiadau mawr i Helen.

Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol





# Cylchlythyr Tiwtoriaid

Chwefror 2019

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn

# Croeso

**Mae hi wedi bod yn gyfnod cyffrous arall i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**

'Dyn ni'n gwerthfawrogi'r gwaith sy'n digwydd ar draws Cymru, y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae'r cwrs Uwch 1 bellach ar werth mewn siopau Cymraeg lleol ac ar gwales.com, a'r cwrs Mynediad 1 ar ei ffordd hefyd. Mae'r cynllun Siarad wnaeth gael ei beilota llynedd yn cael ei redeg gan ddarparwyr ar draws Cymru, ac mae'n braf gweld mwy o ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn cael cyfle i elwa o'r prosiect.

Mae'r sioe i ddysgwyr, 'Trafferth', ar daith o gwmpas Cymru gan gwmni theatr Mewn Cymeriad a bydd un safle newydd i ŵyl Ar Lafar eleni ar 6 Ebrill, yn Amgueddfa Wlân Drefach Felindre. Datblygiad newydd yw'r teithiau cerdded i ddysgwyr – cadwch lygad allan am y dyddiad yn eich ardal chi.

Mae eich gwaith chi fel tiwtoriaid yn cyfrannu'n helaeth at ddenu, meithrin a chreu siaradwyr Cymraeg. Mae croeso i chi gysylltu â ni ar marchnata@dysgucymraeg.cymru neu ffoniwch 0300 3234324 os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

**Hawys Roberts**
Prif Swyddog Cyfathrebu y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol



# Ar Lafar 6 Ebrill

Mae Ar Lafar yn ŵyl i ddysgwyr a'u teuluoedd ac yn cael ei chynnal ar bedwar safle o gwmpas Cymru – Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth a safle newydd am eleni fydd Amgueddfa Wlân Cymru, Drefach Felindre. Mae poster a thaflen gyffredinol ar ein gwefan, a bydd amserlenni penodol i bob safle yn dilyn yn fuan iawn. Cadwch lygad ar y dudalen am ddiweddariadau. Bydd yr ŵyl yn cynnwys gweithdai ymarferol, o nyddu i greu map, a gweithgareddau amrywiol eraill - rhywbeth i'r teulu i gyd felly. Anogwch eich dysgwyr i ddod i brofi diwylliant a hanes Cymru ac i ymarfer eu Cymraeg ar yr un pryd. Os oes diddordeb gyda chi ddod â bws o ddysgwyr o ardal benodol, rhowch wybod cyn gynted ag sy'n bosib: hawys.roberts@dysgucymraeg.cymru.




# Gwiriwr lefel

Mae'r Ganolfan yn chwilio am unigolion cymwys i fod yn aseswyr llawrydd ar gyfer prosiect peilot y 'Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg' sy'n rhan o gynllun 'Cymraeg Gwaith' y Ganolfan. Mae'r gwiriwr yn cynnig cyfle i unigolion sy'n rhan o'r cynllun i wirio eu lefel Cymraeg ym mhob un o'r pedair sgil iaith (Siarad, Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu). Caiff yr adrannau Gwrando a Darllen eu marcio'n awtomatig, ond mae angen marcio'r adrannau Siarad ac Ysgrifennu'n gorfforol. Oes modd i chi rannu gyda'ch rhwydweithiau os gwelwch yn dda, neu ebostiwch Awen Schiavone am fwy o wybodaeth: awen.schiavone@dysgucymraeg.cymru

# Hyfforddiant

| | |
|---|---|
| 11 Mai | Y Gynhadledd Genedlaethol yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd |
| 5-6 Gorffennaf | Hyfforddiant rhanbarthol y De-ddwyrain |
| 12 – 13 Mai | Hyfforddiant rhanbarthol y De-orllewin |
| 6-7 Medi 2019 | Hyfforddiant rhanbarthol y Gogledd |
| **Bydd y tair sesiwn yn canolbwyntio ar gyflwyno gwerslyfrau newydd Sylfaen ac Uwch 2.** | |

# Ansawdd

Rydym ar ganol casglu barn dysgwyr ledled Cymru gyda'n holiadur cenedlaethol 'Dweud eich Dweud'. Ewch ati i annog eich dysgwyr i gwblhau'r holiadur fel y bydd gennym ddarlun mor gynhwysfawr â phosib o farn ein dysgwyr.  Dyma'r ddolen i'r holiadur - https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/dweud-eich-dweud/ Bydd y darparwyr lleol a'r Ganolfan Genedlaethol yn llunio Cynllun Gweithredu yn sgil sylwadau'r dysgwyr er mwyn ymgyrraedd at welliant parhaus yn ein gwasanaethau. Bydd cyfle hefyd i ddysgwyr sy'n llenwi'r holiadur ennill cwrs yn Nant Gwrtheyrn. Mae mwy o fanylion ar ddiwedd yr holiadur ar-lein.

# Teithiau cerdded




Beth am annog eich dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg ar un o bum taith gerdded sydd wedi'u trefnu dros fisoedd y gwanwyn a'r haf. Mae mwy o wybodaeth ar ein Safle dysgucymraeg.cymru.

| | |
|---|---|
| 9 Mawrth | Aberystwyth |
| 13 Ebrill | Talacharn |
| 11 Mai | Cwm Idwal |
| 8 Mehefin | Treffynnon |
| 15 Mehefin | Y Barri |

# Adnoddau newydd

Mae gwerslyfr Uwch 1 bellach wedi'i gyhoeddi ac ar werth am £10 mewn siopau Cymraeg ar hyd a lled Cymru.  Os nad oes siop Gymraeg yn eich ardal chi, mae hefyd ar gael ar www.gwales.com. Y llyfr nesaf i'w gyhoeddi fydd y cwrs Mynediad. Mae'r gwaith mireinio'n mynd ei flaen o hyd felly os dych chi'n dysgu Mynediad 1 eleni ac eisiau gweld unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud, cysylltwch â Helen Prosser mor fuan â phosib – helen.prosser@dysgucymraeg.cymru.






# Penwythnos yng Nglan-llyn

Cofiwch roi gwybod i'ch dysgwyr am y penwythnos preswyl yng Nglan-llyn, 3 – 5 Mai. Bydd y penwythnos yn llawn gwersi a gweithgareddau. Mae'r daflen archebu a'r holl wybodaeth ar ein Safle.



# Sioe

Yn sgil llwyddiant ‘Taith yr Iaith’ llynedd, mae cwmni Mewn Cymeriad wedi creu sioe newydd o’r enw ‘Trafferth’.  Yn y sioe, mae Dafydd ap Gwilym yn adrodd pedair cainc y Mabinogi.  Holwch eich darparwr lleol pryd bydd y sioe yn eich ardal chi.



*Tudur Phillips sy’n actio Dafydd ap Gwilym yn y sioe, a staff o Dysgu Cymraeg Morgannwg.*

# Arholiadau

Bydd arholiadau haf CiO 2019 ar y dyddiadau isod. Cadwch y dyddiadau'n glir!

| | |
|---|---|
| Mynediad Dydd | Dydd Mercher 5 Mehefin |
| Mynediad Nos | Nos Iau 6 Mehefin |
| Canolradd | Dydd Gwener 7 Mehefin |
| Uwch | Dydd Mercher a bore Iau 12-13 Mehefin |
| Sylfaen | Dydd Gwener 14 Mehefin |

**Cofiwch fod arholiad Mynediad ar ddydd Mercher eleni. Cofiwch hefyd fod yr arholiad Sylfaen yn newid yn 2020!**

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â cymraegioedolion@cbac.co.uk**



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Cylchlythyr Tiwtoriaid

Gorffennaf 2019

# Croeso

**Croeso i rifyn mis Gorffennaf o'r cylchlythyr i diwtoriaid.**

'Dyn ni yng nghanol cyfnod prysur arall wrth i ni edrych ymlaen at gynlluniau cyffrous, adnoddau a chwrslyfrau newydd, a digwyddiadau'r haf.

Bydd yr ymgyrch farchnata genedlaethol dros fisoedd yr haf yn canolbwyntio ar y thema 'hyder', a bydd yr hysbysebion newydd i'w gweld ar y teledu ac ar-lein tan fis Medi.

Os fyddwch chi o gwmpas yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy, cofiwch alw draw i stondin Shw'mae Su'mae ar y maes am baned a sgwrs.

Dyddiad arall cyffrous i'ch dyddiaduron fydd wythnos 14-18 Hydref pan fydd Radio Cymru yn cynnal wythnos y dysgwyr gyda phob math o raglenni, cyfweliadau ac eitemau diddorol am ddysgwyr ar y radio drwy gydol yr wythnos honno.

Mae eich gwaith chi fel tiwtoriaid yn cyfrannu'n helaeth at ddenu, meithrin a chreu siaradwyr Cymraeg. Mae croeso i chi gysylltu â ni ar marchnata@dysgucymraeg.cymru neu ffoniwch 0300 3234324 os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

**Hawys Roberts**
Prif Swyddog Cyfathrebu y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol




# Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019

Cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn Llanrwst, Sir Conwy 3-10 Awst. Bydd stondin Shw’mae Su’mae yn llawn gweithgareddau amrywiol o bob math drwy gydol yr wythnos, o ardal liwio ac amser stori i blant, i osod blodau, cwis a chomedi. Bydd y sioe i ddysgwyr a gomisiynwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sef ‘Trafferth’ yn cael ei pherfformio gan gwmni Mewn Cymeriad a’r actor Tudur Phillips, ddydd Mawrth am 4.30pm.

Bydd croeso i chi hefyd ymuno â ni ar y dyddiadau isod ym mhabell Shw’mae Su’mae ar y maes. Bydd cyfle i chi glywed am ein datblygiadau diweddaraf a chyfarfod dysgwyr:

Dydd Sadwrn, 3 Awst, 2.00pm Rownd derfynol y Cwis Mawr.
Dydd Llun, 5 Awst, 11.00am Panel i drafod Dysgu Cymraeg yn y sector Gofal.
Dydd Mawrth, 6 Awst, 2.00pm Lansiad cyrsiau Dysgu Cymraeg newydd, gan gynnwys y cwrs Mynediad i ddechreuwyr.
Dydd Mercher, 7 Awst, 11.00am, ar **Stondin BBC Cymru** bydd Lansiad Wythnos Dysgu Cymraeg Radio Cymru yn yr Hydref.

Mae copïau o ganllaw’r Eisteddfod ar gael hefyd. Mae hon yn gyfrol ddefnyddiol a diddorol ar gyfer dysgwyr ac ymwelwyr sy’n anghyfarwydd â’r Eisteddfod. Mae croeso i chi gysylltu â Swyddfa’r Eisteddfod yn yr Wyddgrug ar 08454 090400 i archebu rhai ar gyfer eich dysgwyr.



# Cynllun Camau

Lansiwyd y cynllun Camau yn Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a’r Fro gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan. Dyma gynllun newydd sy’n cynnig hyfforddiant unigryw i’r sector addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar. Mae’n cynnwys cyrsiau wyneb yn wyneb, a chwrs ymwybyddiaeth ar-lein. Y nod yw hyfforddi 350 o bobl wyneb yn wyneb a 1,000 ar y cwrs ar-lein. Bydd cyrsiau ar gael ar bob lefel ac yn cael eu teilwra ar gyfer gweithlu sydd â chyfrifoldeb trosglwyddo iaith i blant ifanc.

# Cynllun Datblygu’r Gweithlu

Mae’r cynllun hwn hyd yn hyn yn cynnwys pecyn anwytho/croeso ar-lein i diwtoriaid newydd a phecyn recriwtio i’w ddefnyddio gan bob darparwr, sy’n cynnwys hysbysebion am swyddi. Mae’r gwaith ar y cymhwyster newydd yn parhau a bydd y lefel gyntaf yn barod ar gyfer mis Medi. Y cam nesaf fydd lansio Academi. Nod yr Academi fydd darparu cyfleoedd, i holl staff dysgu Cymraeg, ddatblygu ystod eang o sgiliau a phrofiadau a magu hyder yn eu gwaith.

# Adnoddau newydd

Dyma'r adnoddau newydd fydd ar gael ar gyfer Medi 2019:

Cwrs Mynediad – ar werth am £10
Cwrs Sylfaen 1 (Sylfaen llawn yn barod erbyn Ionawr 2020)
Cwrs Canolradd 1 (peilot yn y De)
Cwrs Uwch 2 (Uwch 2 yn llawn erbyn Ionawr 2020)
Cwrs Uwch 3 rhan A (peilot ar draws Cymru)

# Hyfforddiant

Cofiwch am yr hyfforddiant ar yr adnoddau – Sylfaen ac Uwch 2. Rhaid i chi gofrestru trwy'ch darparwr chi. Croeso cynnes i bawb!

| | |
|---|---|
| 5 a 6 Gorffennaf | Canolfan Gartholwg, Pentre'r Eglwys, Pontypridd |
| 12 a 13 Gorffennaf | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin |
| 6 Medi | Prifysgol Bangor |
| 7 Medi | Coleg Cambria, Wrecsam |

# Mesur

Mae asesiadau i ddysgwyr Mynediad 1 ac Uwch 1 bellach ar gael ar ein Safle Rhyngweithiol. Byddan nhw'n cael eu lansio'n llawn ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf ond gallen nhw fod yn ddefnyddiol iawn i'ch dysgwyr er mwyn adolygu dros yr haf. Dyma'r dolenni i'r tudalennau perthnasol:
Mynediad - https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/adnoddau/mynediad/;
Uwch - https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/adnoddau/uwch/.

# Llyfryn Defnyddio Fy Nghymraeg

Mae tudalennau ychwanegol yng nghefn y llyfryn ar gyfer 2019-20 er mwyn i'r dysgwyr nodi eu gwaith cartref yn wythnosol.  Hyderir y bydd hyn yn arwain at ddefnydd cyson o'r llyfryn.




# Her yr Haf

Gan fod defnyddio'r iaith mor bwysig, a'r gwyliau haf yn gallu bod yn hir, anogir pob dysgwr i gwblhau Her yr Haf trwy nodi eu gweithgarwch wrth ddysgu ac ymarfer y Gymraeg dros yr haf.  Mae copïau papur o'r ffurflen wedi'u dosbarthu i bob darparwr ond mae hefyd yn bosib cwblhau'r ffurflen ar-lein.  Os bydd y ffurlenni'n cael eu dychwelyd atom, mae cyfle i ennill cwrs am ddim y flwyddyn nesaf.  Diolch i'r darparwyr am gynnig cwrs am ddim ym mhob sir yng Nghymru.  A wnewch chi annog eich dysgwyr i gymryd rhan os gwelwch yn dda?  Dyma'r ddolen i'r ffurflen ar y Safle:
[https://dysgucymraeg.cymru/media/5748/her-yr-haf-forms.pdf](https://dysgucymraeg.cymru/media/5748/her-yr-haf-forms.pdf)

# Cymraeg Gwaith

**Cyrsiau Preswyl 'Defnyddio Cymraeg Gwaith'**
Os ydych yn adnabod dysgwyr sydd yn gallu manteisio ar gwrs preswyl 'Codi Hyder' trwy eu gwaith (lefel Canolradd, Uwch, Hyfedredd, Gloywi), mae amserlen y cwrs pum niwrnod o hyd i weld yma.

Mae gyda ni gyrsiau ar-lein hefyd. Mae cyfres o gyrsiau 10 awr ar gyfer dechreuwyr, rhai wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer gwahanol sectorau, ar gael yn rhad ac am ddim yma.

**Cwrs 'Gwella Cymraeg Gwaith'**
Yr wythnos yma, byddwn yn cyhoeddi cwrs newydd ar-lein ar lefel gloywi. Mae'r cwrs 10 awr hwn ar gyfer gweithwyr sydd eisoes yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ond sydd eisiau datblygu eu sgiliau a'u hyder wrth ysgrifennu yn y Gymraeg. Iaith gwaith a ddefnyddir yn y cwrs hwn.

Mae cyrsiau dwys Cymraeg Gwaith yn ffordd o ddysgu tipyn o Gymraeg mewn cyfnod byr. Maent yn cynnig hyfforddiant hyblyg i gyflogwyr. Mae rhagor o fanylion yma .

**Am fwy o wybodaeth am gyrsiau Cymraeg Gwaith cysylltwch â cymraeggwaith@dysgucymraeg.cymru neu 0300 3234324.**